OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 709 (Cy. 179)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## ATAL CREULONDEB

# Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Amrywio) (Cymru) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn amrywio Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2019 (O.S. 2019/18) (Cy. 7).

O dan adran 8 o Ddeddf Plâu 1954 (p. 68), mae'n drosedd i ddefnyddio neu i ymwybodol ganiatáu defnyddio unrhyw drap sbring ac eithrio trap sydd wedi ei gymeradwyo drwy orchymyn, ar anifeiliaid neu mewn amgylchiadau nad yw wedi ei gymeradwyo ar eu cyfer.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu math o drap sbring at y rhai sydd wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio yng Nghymru, sef Perdix Spring Trap (*erthygl 2(c)*).

Mae'n diweddaru cyfeiriad Goodnature Ltd sy'n gweithgynhyrchu trapiau ac yn ychwanegu at y rhywogaethau targed y caniateir defnyddio dau o'r trapiau sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ar eu cyfer:

— bellach, caniateir hefyd ddefnyddio Goodnature A24 Rat and Stoat Trap ar gyfer pathewod bwytadwy (*Glis glis*) (*erthygl 2(b)*), a

— bellach, caniateir hefyd ddefnyddio Tully Trap ar gyfer gwiwerod llwyd, pan fo fafflau ar gyfer gwiwerod llwyd wedi eu gosod arno, yn unol â'r amodau a bennir (*erthygl 2(d)*).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 709 (W. 179)

# ANIMALS, WALES

## PREVENTION OF CRUELTY

# The Spring Traps Approval (Variation) (Wales) Order 2021

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order varies the Spring Traps Approval (Wales) Order 2019 (S.I. 2019/18) (W. 7).

Under section 8 of the Pests Act 1954 (c. 68), it is an offence to use or knowingly permit the use of any spring trap, other than a trap that has been approved by order, for animals or in circumstances for which it is not approved.

This Order adds a type of spring trap to those approved for use in Wales, namely, the Perdix Spring Trap (*article 2(c)*).

It updates the address of Goodnature Ltd who manufacture traps and adds to the target species for which two of the traps previously approved may be used:

— the Goodnature A24 Rat and Stoat Trap may now also be used for edible dormice (*Glis glis*) (*article 2(b)*), and

— the Tully Trap may now also be used for grey squirrels, where it is fitted with baffles for grey squirrels, in accordance with the conditions specified (*article 2(d)*).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers’ Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 709 (Cy. 179)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## ATAL CREULONDEB

# Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Amrywio) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Mehefin 2021* |
| *Yn dod i rym* | *7 Gorffennaf 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 8(3) a (7) o Ddeddf Plâu 1954(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Amrywio) (Cymru) 2021 a daw i rym ar 7 Gorffennaf 2021.

**Amrywio Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2019**

**2.** Mae'r Atodlen i Orchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2019(**3**) wedi ei hamrywio fel a ganlyn—

(a) yng nghofnodion Goodnature A18 Grey Squirrel Trap, Goodnature A18 Mink Trap, Goodnature A24 Pro a Goodnature A24 Rat and Stoat Trap, yng ngholofn 1 (y math o drap

(**1**) 1954 p. 68. Diwygiwyd adran 8(7) gan adran 1(1) o Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1973 (p. 39) a Rhan 8 o Atodlen 1 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd holl swyddogaethau Gweinidog y Goron yn Neddf Plâu 1954, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 672/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2019/18 (Cy. 7).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 709 (W. 179)

# ANIMALS, WALES

## PREVENTION OF CRUELTY

# The Spring Traps Approval (Variation) (Wales) Order 2021

| | |
|---|---|
| *Made* | *15 June 2021* |
| *Coming into force* | *7 July 2021* |

The Welsh Ministers make this Order in exercise of the powers conferred by section 8(3) and (7) of the Pests Act 1954(**1**) and now vested in them(**2**).

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the Spring Traps Approval (Variation) (Wales) Order 2021 and it comes into force on 7 July 2021.

**Variation of the Spring Traps Approval (Wales) Order 2019**

**2.** The Schedule to the Spring Traps Approval (Wales) Order 2019(**3**) is varied as follows—

(a) in the entries for the Goodnature A18 Grey Squirrel Trap, the Goodnature A18 Mink Trap, the Goodnature A24 Pro and the Goodnature A24 Rat and Stoat Trap, in

(**1**) 1954 c. 68. Section 8(7) was amended by section 1(1) of, and Part 8 of Schedule 1 to, the Statute Law (Repeals) Act 1973 (c. 39).

(**2**) All functions of a Minister of the Crown in the Pests Act 1954 were transferred, so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions were transferred to the Welsh Ministers by section 162 of, and paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**3**) S.I. 2019/18 (W. 7).

a'i wneuthuriad), yn lle "4-12 Cruickshank Street, Kilbirnie 6022, Wellington," rhodder "8 Horner Street, Newtown, Wellington 6021,";

(b) yn y cofnod ar gyfer Goodnature A24 Rat and Stoat Trap, yng ngholofn 2 (amodau), yn lle "a llygod" rhodder ", llygod a phathewod bwytadwy *(Glis glis)*(**1**)";

(c) ar ôl y cofnod ar gyfer Nooski Mouse Trap mewnosoder y cofnod a ganlyn—

| | |
|---|---|
| "**Perdix Spring Trap** a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, PERDIX Wildlife Solutions Ltd, Unit 1 Hatton Rock Business Park, Hatton Rock, Stratford-Upon-Avon, Warwickshire, CV37 0BX. | Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd neu ddal gwiwerod llwyd, llygod mawr, carlymod a gwencïod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben."; |

(d) yn y cofnod ar gyfer Tully Trap, yng ngholofn 2 (amodau), yn lle "a llygod mawr." rhodder—

", llygod mawr a gwiwerod llwyd.

Pan gaiff y trap ei ddefnyddio ar gyfer gwiwerod llwyd, rhaid gosod arno fafflau ar gyfer gwiwerod llwyd a ddarparwyd gan y gweithgynhyrchydd neu a adeiladwyd yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd. Rhaid defnyddio bafflau a osodwyd ar drap yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd."

column 1 (type and make of trap), for "4-12 Cruickshank Street, Kilbirnie 6022, Wellington," substitute "8 Horner Street, Newtown, Wellington 6021,";

(b) in the entry for the Goodnature A24 Rat and Stoat Trap, in column 2 (conditions), for "and mice" substitute ", mice and edible dormice *(Glis glis)*(**1**)";

(c) after the entry for the Nooski Mouse Trap insert the following entry—

| | |
|---|---|
| "**Perdix Spring Trap** manufactured by or under the authority of PERDIX Wildlife Solutions Ltd, Unit 1 Hatton Rock Business Park, Hatton Rock, Stratford-Upon-Avon, Warwickshire, CV37 0BX. | The trap may be used only for the purpose of killing or taking grey squirrels, rats, stoats and weasels. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose."; |

(d) in the entry for the Tully Trap, in column 2 (conditions), for "and rats." substitute—

", rats and grey squirrels.

When used for grey squirrels, the trap must be fitted with baffles for grey squirrels supplied by the manufacturer or constructed in accordance with the manufacturer's instructions. Baffles fitted onto a trap must be used in accordance with the manufacturer's instructions."

*Julie James*

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru
15 Mehefin 2021

Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers
15 June 2021

©ⓗHawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) Gweler y troednodyn ar gyfer Kania Trap 2000 yn yr Atodlen i O.S. 2019/18 (Cy. 7).

(**1**) See the footnote for the Kania Trap 2000 in the Schedule to S.I. 2019/18 (W. 7).

ISBN 978-0-348-39078-0

£4.90

9 780348 390780